**Rhif: WG 30566**

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Adolygiad o Ddyfroedd Ymdrochi yng Nghymru 2017

Ymgynghoriad ar ddynodi Traeth Gwledig Glan Don, Gwynedd yn ddŵr ymdrochi

Dyddiad cyhoeddi: 20 Rhagfyr 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 15 Chwefror 2017

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

OGL © Hawlfraint y Goron

**Trosolwg**

Nod yr ymgynghoriad hwn yw gofyn i bobl fynegi barn am ein cynigion i ddynodi Traeth Glan Don, Gwynedd yn ddŵr ymdrochi o dan y Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi (2006/7/EC) ar gyfer tymor ymdrochi 2017.

Nod y Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi Ewropeaidd yw diogelu iechyd pobl drwy ei gwneud yn ofyn i wledydd yr Undeb Ewropeaidd ddynodi dyfroedd ymdrochi poblogaidd, monitro ansawdd y dŵr a hysbysu ymdrochwyr am ansawdd y dŵr ar y safleoedd dynodedig hyn. Yng Nghymru, mae'r tymor ymdrochi'n para rhwng 15 Mai a 30 Medi.

Un o ofynion y Gyfarwyddeb yw bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r rhestr o ddyfroedd ymdrochi dynodedig yng Nghymru bob blwyddyn.

**Sut i ymateb**

Dylech gyflwyno'ch sylwadau erbyn 15 Chwefror 2017, gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau isod:

**E-bost:** water@wales.gsi.gov.uk

**Drwy'r post:**
Y Gangen Ddŵr
Ymgynghoriad ar Ddyfroedd Ymdrochi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn, dylech anfon e-bost at:
water@wales.gsi.gov.uk

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae gwybodaeth am ddynodi dyfroedd ymdrochi ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru drwy'r ddolen isod:
http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/bathing-water-quality-and-beaches/?skip=1&lang=cy

**Manylion Cyswllt**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni yn:
Y Gangen Ddŵr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerydd
CF10 3NQ

E-bost: water@wales.gsi.gov.uk
Rhif ffôn: 029 2082 5509

**Diogelu data**

Sut y byddwn yn defnyddio’r farn a’r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy’n gweithio ar y materion y mae’r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae’n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion i’r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu’r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Mae hynny’n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion.

Mae’n bosibl y bydd yr enwau a’r cyfeiriadau y byddwn wedi’u cuddio yn cael eu cyhoeddi’n ddiweddarach, er nad yw hynny’n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i’r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny’n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae’r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a’i gyfeiriad, bydd hynny’n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, gallai fod rhesymau pwysig weithiau dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â’u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â’r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu’r wybodaeth.

## Cyflwyniad

### Diben yr Ymgynghoriad

Nod yr ymgynghoriad hwn yw gofyn i bobl fynegi barn am ein cynigion i ddynodi Traeth Glan Don, Gwynedd yn ddŵr ymdrochi dynodedig o dan y Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi (2006/7/EC) ar gyfer tymor ymdrochi 2017.

Mae’r Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi, sy’n cael ei rhoi ar waith drwy Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013, yn ei gwneud yn ofynnol inni fynd ati bob blwyddyn i restru’r holl fannau ymdrochi poblogaidd yng Nghymru. Nod y Gyfarwyddeb yw diogelu iechyd ymdrochwyr rhag llygredd carthion drwy fonitro presenoldeb enterococci’r coluddion ac E.coli a rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd er mwyn iddynt fedru gwneud penderfyniadau deallus ynghylch lle y maent yn ymdrochi.

### Y sefyllfa bresennol

Ar hyn o bryd mae 103 o ddyfroedd ymdrochi dynodedig yng Nghymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn profi ansawdd y dyfroedd ymdrochi dynodedig hyn yn ystod y tymor ymdrochi, sef rhwng 15 Mai a 30 Medi yng Nghymru.

Ers 2015, mae’r ffordd yr ydym yn disgrifio ansawdd dyfroedd ymdrochi wedi newid. Mae pob gwlad yn yr UE wedi mabwysiadu system newydd sy’n defnyddio targedau llawer llymach o ran ansawdd dŵr. Dyma'r categorïau:

- rhagorol
- da
- digonol
- gwael

Eleni, llwyddodd 102 o blith y 103 o ddyfroedd ymdrochi dynodedig yng Nghymru i fodloni’r safonau Ewropeaidd ar gyfer ansawdd dŵr ymdrochi:

- roedd 84 yn rhagorol, sef y safon Ewropeaidd uchaf
- roedd 13 yn dda
- roedd 5 yn ddigonol
- roedd 1 yn wael

Ers tymor ymdrochi 2016, rhaid dangos arwyddion safonol wrth yr holl ddyfroedd ymdrochi dynodedig i ddangos ansawdd y dŵr. Fe welwch ddolen isod at wefan y Comisiwn Ewropeaidd lle gallwch weld yr arwyddion hynny:

http://ec.europa.eu/environment/water/water-bathing/signs.htm

### Cais i ddynodi Traeth Glan Don yn ddŵr ymdrochi dynodedig

Mae cais wedi dod i law oddi wrth Gyngor Gwynedd i ddynodi Traeth Glan Don (cyfeirnod grid SH 3843250) yn ddŵr ymdrochi dynodedig o dan y Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi (2006/7/EC) ar gyfer tymor ymdrochi 2017.

**Tystiolaeth a gwybodaeth a ddarparwyd gan Gyngor Gwynedd ar gyfer Traeth Glan Don**

Mae Traeth Glan Don ar ben gorllewinol tref Pwllheli ar lannau deheuol Penrhyn Llŷn. Saif y traeth rhwng pentir gogleddol y fynedfa i harbwr Pwllheli yn y de, a'r rhan o'r arfordir gyferbyn â Chanolfan Wyliau Traeth Aber-erch yn y gogledd.

Mae'r traeth, sy'n rhyw 2 cilomedr o hyd, yn wynebu'r dwyrain. Mae cysgod da rhag y systemau tywydd yn y rhan ddeheuol, ac mae hynny'n golygu bod y rhan hon o'r arfordir yn boblogaidd iawn gyda theuluoedd ifanc ac ymdrochwyr. Mae'r arfordir yn y pen gogleddol yn fwy agored i'r elfennau ac mae'n boblogaidd gyda syrffwyr gwynt, sgiwyr dŵr, tonfyrddio, hwylwyr, pobl sy'n defnyddio cychod modur a barcutwyr.

Mae Traeth Glan Don yn Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a Sarnau ac mae rhan ogleddol y traeth yn rhan o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Morfa Aber-erch. Mae Llwybr Arfordir Llŷn yn ymestyn ar hyd y traeth i gyfeiriad Penychain yn y gogledd. Yn unol â'r cyfrifoldeb statudol sydd arno, mae Cyngor Gwynedd a phartneriaid allweddol wedi paratoi Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (Natur Gwynedd) er mwyn cefnogi a gwarchod bioamrywiaeth yng Ngwynedd. Mae'r traeth hefyd wedi ennill Gwobr yr Arfordir Glas bum gwaith yn ystod y chwe thymor diwethaf.

Rhwng mis Mai a mis Medi, mae Clwb Hwylio Pwllheli a Chlwb Rhwyfo Pwllheli yn defnyddio rhan o'r arfordir er mwyn cynnal nifer o ddigwyddiadau cystadleuol o'r traeth. Saif Academi Hwylio Genedlaethol a Chanolfan Ddigwyddiadau newydd Plas Heli yn union uwchben y traeth. Mae'r Academi'n cynnal digwyddiadau hwylio cenedlaethol a rhyngwladol, gan ddenu miloedd o ymwelwyr ychwanegol i'r ardal bob blwyddyn.

Cafodd Llwybr Arfordir Llŷn ei ddatblygu'n ddiweddar gan Gyngor Gwynedd, mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru a Phartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru. Mae rhan o'r llwybr yn ymestyn ar hyd y traeth uchaf, o fynedfa'r harbwr i bentir Penychain a thu hwnt.

Cyngor Gwynedd sy'n rheoli Les y Goron ar gyfer y rhan o'r arfordir rhwng y Penllanw Cymedrig a'r Distyll Cymedrig. Mae'r rhan fwyaf o'r tir uwchlaw'r Penllanw Cymedrig yn eiddo i Gyngor Gwynedd, er bod yna rannau yn y pen gogleddol sy'n eiddo i berchenogion preifat. Mae Cyngor Gwynedd wedi dweud wrthym ei fod wedi cysylltu â'r perchenogion ynglŷn â'r cais i ddynodi'r traeth yn ddŵr ymdrochi.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynd ati o bryd i'w gilydd i wneud gwaith adnewyddu a gwella ar y blaendraeth er mwyn helpu i amddiffyn y tir isel sy'n union y tu ôl i'r twyni rhag llifogydd. Mae'n ymgynghori â Chyngor Gwynedd ac yn cael ei ganiatâd cyn gwneud y gwaith hwn.

**Cyrraedd y traeth**

Y brif ffordd o gyrraedd y traeth yw ar hyd ramp ac iddo wyneb concrit, sy'n mynd yn syth i'r tywod ar y blaendraeth. Gellir cyrraedd pen gogleddol y traeth drwy amryfal lwybrau pren cul a grisiau serth sy'n arwain yn syth o Ganolfan Wyliau Traeth Aber-erch. Nid yw'r rhain yn addas ar gyfer cadeiriau olwynion na phramiau.

Mae Cyngor Gwynedd yn patrolio'n ddyddiol ar hyd y traeth yn ystod tymor yr haf. Mae modd mynd ar y traeth ni waeth beth yw cyflwr y llanw er bod llawer lai o le arno yn ystod Penllanw'r Gwanwyn.

Mae cyfyngiad cyflymder o 4 milltir môr o fewn 100 metr i'r traethlin yn Nhraeth Glan Don.

**Trafnidiaeth**

Pwllheli yw prif dref Penrhyn Llŷn ac mae nifer o wasanaethau bysiau ar gael. Mae'r orsaf reilffordd agosaf i Draeth Glan Don ym Mhwllheli. Mae maes parcio di-dâl mawr wrth ffin ogleddol y prif draeth ac mae yno hefyd faes parcio bach sy'n eiddo preifat ond sy'n agored i'r cyhoedd.

**Amwynderau a chyfleusterau ar y traeth**

Mae toiledau cyhoeddus ar gael ar safle'r marina, tua 400 metr o'r fynedfa i'r traeth. Mae offer achub cyhoeddus ar gael hefyd wrth y fynedfa i'r traeth. Darperir gwybodaeth ddwyieithog, gan gynnwys cyngor ar ddiogelwch cyhoeddus a'r hyn y dylid ei wneud mewn argyfwng, cyngor ar beryglon lleol, ansawdd y dŵr, a manylion cyswllt y sefydliad sy'n gyfrifol am y traeth.

Mae biniau sbwriel ar gael uwchben y brif fynedfa i'r traeth. Mae gan Gyngor Gwynedd amserlen ar gyfer glanhau'r traeth ac mae'n yn casglu sbwriel o'r traeth yn ddyddiol rhwng mis Ebrill a mis Medi, a hefyd yn y maes parcio ac ar y tir o amgylch y fynedfa i'r traeth. Hefyd, mae grŵp Gofal Arfordir Aber-erch ac ysgolion lleol yn mynd ati'n wirfoddol i lanhau'r traeth gydol y flwyddyn.

**Cyfathrebu**

Mae cysylltiadau rhesymol ar gyfer ffonau symudol yn y lleoliad hwn drwy rwydweithiau Vodafone, Orange, O2 a Three.

**Arolwg o Ddefnyddwyr y Traeth**

Mae Cyngor Gwynedd wedi cynnal arolwg o nifer yr ymdrochwyr a defnyddwyr y traeth ar gyfer y cyfnod rhwng 23 Mehefin a 3 Medi 2015. Cynhaliwyd yr arolwg yn ystod yr adegau prysur, gan gynnwys gwyliau banc a phenwythnosau.

| Dyddiad | Nifer y bobl ar y traeth | Nifer y bobl yn y dŵr (ymdrochi /padlo) | Nifer y cychod / cerbydau dŵr personol | Nifer y ceufadwyr / canŵ-wyr | Nifer y syrffwyr /syrffwyr gwynt | Nifer y cŵn ar y traeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 23/06/16 | 15 | 4 | 2 | 0 | 0 | 2 |
| 25/06/16 | 31 | 11 | 14 | 0 | 0 | 9 |
| 02/07/16 | 34 | 6 | 4 | 0 | 0 | 3 |
| 03/07/16 | 17 | 2 | 4 | 0 | 0 | 3 |
| 04/07/16 | 7 | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 |
| 07/07/16 | 21 | 7 | 2 | 1 | 0 | 6 |
| 14/07/16 | 31 | 14 | 8 | 0 | 0 | 10 |
| 12/07/16 | 38 | 11 | 6 | 1 | 0 | 9 |
| 17/07/16 | 70+ | 33 | 10 | 1 | 0 | 17 |
| 19/07/16 | 100+ | 35 | 12 | 4 | 0 | 23 |
| 21/07/16 | 43 | 10 | 1 | 0 | 0 | 6 |
| 23/07/16 | 75+ | 29 | 16 | 4 | 0 | 15 |
| 25/07/16 | 50+ | 15 | 8 | 0 | 0 | 11 |
| 27/07/16 | 80+ | 21 | 6 | 4 | 0 | 14 |
| 28/07/16 | 100+ | 23 | 8 | 1 | 0 | 14 |
| 29/07/16 | 23 | 5 | 2 | 1 | 0 | 4 |
| 30/07/16 | 150+ | 45 | 19 | 6 | 1 | 30 |
| 31/07/16 | 100+ | 40+ | 14 | 1 | 0 | 18 |
| 03/08/16 | 33 | 6 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| 05/08/16 | 50+ | 21 | 16 | 2 | 0 | 11 |
| 06/08/16 | 200+ | 50+ | 34 | 8 | 0 | 25+ |
| 07/08/16 | 100+ | 40+ | 12 | 3 | 1 | 25 |
| 13/08/16 | 50+ | 16 | 21 | 5 | 0 | 18 |
| 15/08/16 | 200+ | 50+ | 40+ | 8 | 1 | 30+ |
| 16/08/16 | 200+ | 50+ | 27 | 11 | 0 | 25+ |
| 18/08/16 | 50+ | 13 | 14 | 0 | 0 | 15 |
| 21/08/16 | 34 | 11 | 9 | 0 | 0 | 9 |
| 22/08/16 | 100+ | 40+ | 31 | 5 | 0 | 16 |
| 24/08/16 | 75+ | 29 | 9 | 1 | 1 | 4 |
| 26/08/16 | 50+ | 19 | 7 | 1 | 0 | 14 |
| 29/08/16 | 150+ | 50+ | 29 | 11 | 0 | 35+ |
| 01/09/16 | 22 | 5 | 2 | 0 | 0 | 3 |
| 03/09/16 | 43 | 12 | 3 | 0 | 0 | 14 |

Mae Llywodraeth Cymru yn fwy na pharod i gefnogi'r cynnig i ddynodi Traeth Glan Don yn ddŵr ymdrochi ar gyfer tymor ymdrochi 2017 ar sail y dystiolaeth a'r wybodaeth a gyflwynwyd gan Gyngor Gwynedd.

**Ymateb i'r ymgynghoriad**

Byddem yn falch o gael clywed eich barn am y cynnig i ddynodi Traeth Glan Don yn ddŵr ymdrochi.

**Ymateb i'r Sylwadau**

Ar ôl y cyfnod ymgynghori, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'r ymatebion a fydd wedi dod i law ac yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a phenderfyniad terfynol ynghylch dynodi Traeth Glan Don yn ddŵr ymdrochi ar gyfer tymor ymdrochi 2017.

**Y Cyfnod Ymgynghori**

Bydd y cyfnod ymgynghori'n para am gyfnod o 8 wythnos, o 20 Rhagfyr 2016 tan 15 Chwefror 2017.